**ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**
(DRAFFT CYCHWYNNOL AR GYFER YMGYNGHORI)

## Cyflwyniad

Mae’r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y rheoliadau diwygio yn cael eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Bydd cyflwyno'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y Rheoliadau Gosod Ffioedd yn gweithredu yn unol â bwriad y polisi.

## Opsiynau a Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn mewn perthynas â gwneud y newidiadau hyn:

- <u>Opsiwn 1</u> – “gwneud dim” a pheidio â gwneud y rheoliadau diwygio;
- <u>Opsiwn 2</u> – “gwneud y rheoliadau diwygio” er mwyn cyflwyno newidiadau i'r Rheoliadau Gosod Ffioedd mewn perthynas â chodi ffioedd am ofal a chymorth. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

## Codi ffioedd am ofal a chymorth amhreswyl: yr uchafswm ffi wythnosol

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol i'w priod ddinasyddion cymwys a aseswyd, naill ai yn eu cartref eu hunain, yn y gymuned, neu mewn lleoliad gofal preswyl, ac mae ganddynt ddisgresiwn i godi ffioedd am y gwasanaethau hynny.

Gan nodi'r pwysau ariannol eithriadol cynyddol ar awdurdodau lleol, mae Gweinidogion yn cynnig y dylid diwygio'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n rheoli'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol,  maent yn cynnig cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl, sydd wedi'i bennu ar £100 ar hyn o bryd.

Byddai’r rheoliadau presennol sy'n ymwneud â chodi ffioedd a chynnal asesiadau ariannol yn sicrhau mai dim ond unigolion sydd â'r gallu ariannol i dalu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny. Byddai hyn yn cael ei bennu gan y broses arferol, fel rhan o'r prawf modd a gynhelir gan awdurdod lleol unigolyn. Felly, ni fyddai'n ofynnol i bawb sy'n talu'r uchafswm ffi wythnosol o £100 ar hyn o bryd dalu swm uwch.

## Opsiwn 1 – gwneud dim

- Costau

Ym mis Rhagfyr 2023, amcangyfrifodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiffyg o £432m yng nghyllid llywodraeth leol, a fydd yn effeithio ar y gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol

Drwy gadw'r cap presennol o £100 ar gyfer yr uchafswm ffi wythnosol, mae cyfran yr incwm trethadwy y gall awdurdod lleol ei gael yn erbyn costau gwirioneddol darparu gofal yn lleihau, gan gynyddu'r baich ariannol. Oherwydd newidynnau'r cynllun codi ffioedd a'r metrigau sydd ar gael, mae'n anodd nodi'n bendant pa bwysau sy'n gysylltiedig yn benodol â chadw'r uchafswm ffi wythnosol a pha bwysau sy'n bwysau galw ehangach sydd wedi'u dwysáu drwy gapio'r uchafswm ffi wythnosol, i bob pwrpas, ar y gyfradd bresennol o £100 yr wythnos, ers 2020. Byddai gwneud dim yn cynyddu'r pwysau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

- Manteision

Ni fyddai'n rhaid i oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl cymwys dalu mwy na £100 am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl a drefnir neu a ddarperir gan eu hawdurdod lleol. Gan na fyddai'n cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol presennol, byddai'r opsiwn hwn yn rhoi sicrwydd i oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau ynglŷn â'r uchafswm y byddent yn ei dalu bob wythnos, am weddill y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai'r ffi a godir ar unigolyn newid hyd yn oed os na chaiff yr uchafswm ffi wythnosol ei gynyddu os bydd ei anghenion gofal a chymorth yn newid a/neu os bydd ei sefyllfa ariannol yn newid. Byddai'r uchafswm wythnosol o £100, os mabwysiedir opsiwn 1 (‘gwneud dim’), yn gymwys o hyd.

**Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio**

Byddai'r opsiwn hwn yn galw am reoliadau diwygio i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl o'i lefel bresennol, sef £100, i swm penodol newydd (a bennir ar ôl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi) yr wythnos.

- Costau

Bydd yr opsiwn hwn yn cynyddu'r ffi wythnosol y mae rhai oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl a drefnir a/neu a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn ei thalu am y gwasanaethau hyn. Ni fydd y ffi uwch hon yn gymwys i bawb, ac ni fydd yn golygu y byddai'r unigolion hynny sy'n talu'r uchafswm wythnosol o £100 yr wythnos ar hyn o bryd, yn talu'r uchafswm newydd. Dim ond unigolion sydd â'r gallu ariannol i dalu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny. Byddai hyn yn cael ei bennu gan y broses arferol, fel rhan o'r prawf modd a gynhelir gan awdurdod lleol unigolyn ac yn unol â pholisïau codi ffioedd yr awdurdod lleol.

Efallai y byddai cost ychwanegol i awdurdodau lleol oherwydd byddai angen cynnal profion modd newydd ar gyfer oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Fodd bynnag, cynhelir asesiadau o'r fath fel mater o drefn a byddai angen eu cynnal ar gyfer newid mewn amgylchiadau personol gyda'r newid arfaethedig hwn neu hebddo. Felly, byddai unrhyw gost neu alw ychwanegol yn gynnydd bach iawn i ddisgwyliadau busnes fel arfer.

- Manteision

Os dewisir yr opsiwn hwn, bydd awdurdodau lleol yn gallu manteisio ar ffrwd refeniw cynyddol, er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau ariannol sy'n gysylltiedig â'r pwysau economaidd presennol sy'n ymwneud â chynnydd chwyddiannol. Byddai hyn i'w briodoli i'r swm uwch y byddai rhai oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn dechrau ei dalu i'w hawdurdodau lleol tuag at eu gofal, yn dilyn prawf modd.

Drwy sicrhau bod uchafswm ffi wythnosol o hyd ar gyfer gofal amhreswyl, rhoddir sicrwydd i oedolion na fyddant yn talu mwy na swm penodol, waeth beth fo'u hanghenion gofal neu eu sefyllfa ariannol, am eu gofal a'u cymorth.

Mae’r amcangyfrifon dros dro, yn seiliedig ar ddata o 2021-22[1], yn dangos bod y manteision cyllido i awdurdodau lleol yn llai na £7.2m y flwyddyn am gynnydd o £15; tua £9.6m yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £20 a thua £12m o incwm yn seiliedig ar gynnydd o £25 yr wythnos. Amcangyfrifon dros dro yn unig yw'r rhain, yn seiliedig ar effaith bosibl naill ai bod pobl yn cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn gallu talu'r tâl uwch, neu fod cost eu gofal yn is na'r uchafswm newydd. O'r dadansoddiad cychwynnol, nid yw'r manteision cyllido unwaith y bydd pob ffactor yn cael eu hystyried yn glir eto.

## Casgliad

Oherwydd y fantais ariannol y bydd yn ei sicrhau i awdurdodau lleol, a'r ffaith y bydd oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn cael diogelwch ariannol o hyd ar ffurf uchafswm ffi wythnosol, argymhellir “Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio”.

## Asesu Cystadleuaeth

| Prawf Hidlo Cystadleuaeth | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ateb: cadarnhaol/negyddol |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan | Nac oes |

[1] Oedolion y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth, yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| unrhyw gwmni gyfran o’r farchnad sy’n fwy na 10%? | |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o’r farchnad sy’n fwy nag 20%? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliadau newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda’i gilydd gyfran o’r farchnad sy’n fwy na 50%? | Nac oes |
| C4: A fyddai costau’r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill? | Na fyddent |
| C5: A yw’r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydyw |
| C6: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C7: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| C8: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Nac ydyw |
| C9: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

**Adolygiad ar ôl Gweithredu**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i fonitro swyddogaethau'r Ddeddf a gyflawnir ar eu rhan gan awdurdodau lleol a chyrff eraill. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn i'r cyrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau wrth roi'r rheoliadau diwygio hyn ar waith.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau diwygio ar feysydd megis y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Pobl Hŷn a Chydraddoldeb.